# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026



## Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod

## i'w chynnal ar Waun y Dref, Arberth

**(neu yn Neuadd y Frenhines, Arberth, os bydd y tywydd yn anffafriol)**

## am 11.00 fore Sadwrn 17 Mai 2025

## Seremoni'r Orsedd
am 11.00 o'r gloch

1. **Y Cyrn Gwlad** **Dewi Corn a Gwyn Anwyl**
*Mae'r Cyrn Gwlad yn galw pawb ynghyd o bob cornel o'r wlad. Disgwylir i'r gynulleidfa sefyll pan seinia'r Cyrn i'w cyfeiriad hwy. Seinir y ffanffer bedair gwaith – unwaith i bob pwynt o'r cwmpawd.*

2. **Gweddi'r Orsedd** **Trystan Llŷr**
*Cenir y Weddi gan aelod o'r Orsedd, a'r gynulleidfa'n ailadrodd fesul llinell:*

Dyro, Dduw, dy nawdd;
Ac yn nawdd, nerth;
Ac yn nerth, deall;
Ac yn neall, gwybod;
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn;
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu;
Ac o garu, caru pob hanfod;
Ac ym mhob hanfod, caru Duw,
Duw a phob daioni.

3. **Agor yr Orsedd** **Yr Archdderwydd Mererid**
*Disgwylir i'r Gorseddogion a'r gynulleidfa ynghyd ateb â'r gair 'Heddwch' bob tro. Bydd yr Archdderwydd wedyn yn cyhoeddi bod yr Orsedd yn agored.*

4. **Emyn** **Tôn:** ***Sanctus***
(*i'w ganu gan y gynulleidfa, i gyfeiliant aelodau o Fand Pres Wdig a Rhydaman*)

Molwn Di, O Dduw ein tadau,
  uchel ŵyl o foliant yw;
awn i mewn i'th byrth â diolch
  ac offrymwn ebyrth byw;
cofiwn waith dy ddwylaw arnom,
  a'th amddiffyn dros ein gwlad;
tithau, o'th breswylfod sanctaidd,
  gwêl a derbyn ein mawrhad.

Ti â chariad Tad a'n ceraist
  yn yr oesoedd bore draw;
o dywyllwch i oleuni
  y'n tywysaist yn dy law;
cawsom di ym mhob cenhedlaeth
  fel dy enw'n gadarn Iôr;
cysgod gwell na'r bryniau uchel,
  ac na chedyrn donnau'r môr.

Cudd ni eto dan Dy adain
  a bydd inni'n fur o dân;
tywys di ein tywysogion
  megis cynt â'th Ysbryd Glân;
pâr i'n cenedl annwyl rodio
  yn dy ofn o oes i oes,
gyda'i ffydd yng ngair y cymod,
  gyda'i hymffrost yn y Groes.

***Eifion Wyn***

**5. Anerchiad** — **Yr Archdderwydd Mererid**

**6. Barddoniaeth bro: ‘Preseli’, gan Waldo Williams** — **Elin y Fron**

**7. Cân** — **Daniel Maes y Bryn**

**8. Cyflwyno’r Corn Hirlas** — **Einir Mai Thomas**
**Macwyaid y Llys:** — **Tomi Rees a Cai Jones**

*Yr Hirlas oedd yr hen gorn yfed yn llysoedd Tywysogion Cymru yn yr Oesoedd Canol. Yn ôl arfer cwrteisi’r llys, trwy estyn y Corn Hirlas i’r Archdderwydd bydd y Cyflwynydd yn estyn yn symbolaidd win pefriog croeso’r fro i’r Orsedd ac i’r Eisteddfod. Oedolyn o fro’r Eisteddfod yw’r Cyflwynydd a bydd dau Facwy yn ei hebrwng. Wedi cyrraedd grisiau’r Maen Llog, dywed y Cyflwynydd:*

‘Hybarch Archdderwydd, yn enw aelwydydd bro’r Garreg Las, gofynnwn i ti yfed o win ein croeso i’r Orsedd ac i’r Eisteddfod.’

*Bydd yr Archdderwydd yn dychwelyd y Corn Hirlas i’r Cyflwynydd gan ddweud:*

‘Diolch i ti. Gweddïwn am fendith y Nef ar gartrefi bro’r Garreg Las ac ar eich Eisteddfod.’

**9. Cerdd Dant: Y Cywydd Croeso** — **Telynores Medi**

A wês whant dod i Lantwd,
i ŵyl pob gŵyl? Wês, glei. Gwd.
Dewch felly'n un atom ni,
i lannau'r môr goleuni,
i'r Awst rhwng traeth a rhostir
lle daw'r Mabinogi'n wir.

Mewn gŵyl sy'n brifwyl tair bro,
tair ardal sy'n dal dwylo:
Teifi ydym, Taf wedyn
a Sir Benfro yno'n un
â'r hyder, yn yr adwy,
i greu map heb Lansgyr mwy.

O Wdig i Gilrhedyn,
hyd y Cei a'r Doc ei hun,
codwn dŷ i Gymru i gyd
a thŷ haf i'n hiaith hefyd
o'r Ferwig i Foel Drigarn,
o Hen Dŷ Gwyn hyd y Garn,

Yn y tŷ, bydd Waldo 'to
yn y gegin yn gigio
a Merched Beca'n canu
set i'r to iau, nes troi'r tŷ
a'i ffenestri'n gerddi i gyd
a'i lolfeydd yn gelfyddyd.

A bydd, mor eang â'r bae,
orwelion yn lle'r waliau,
ac o'n cartre fe grëwn,
ym mherci'r haf, fyd mawr crwn
lle bydd hafan dan ei do
a heddwch yn sail iddo.

Yn fyddin dangnefeddus,
wrth ysgwydd yr Arglwydd Rhys,
dewch i ŵyl Llantwd, da chi,
dewch â'ch bryd ar gydgodi
tŷ sydd gystal â phalas,
y gaer glyd o garreg las.

***Y Prifardd Ceri Wyn***

**10. Cyflwyno Croeso Ardal y Garreg Las** i'r Orsedd a chyflwyno'r copi cyntaf o *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026* i'r Archdderwydd gan John Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.

*Bydd yr Archdderwydd yn ymateb.*

**11. Cyfarchion** **Y Prifardd Idris Hoffnant**

**12. Y Ddawns Flodau a Chynnyrch y Meysydd**

**PLANT Y DDAWNS**

Anest Davies   Beca Grug Morris   Cari Haf Thomas   Efa Kerr   Efa Nicholas
Ela McLoughlin   Eres Phillips   Gwenlli Rosina Thomas   Leila Ivy Williams
Lili Jones   Lois Bowen   Mared Rodgers  Marged Aur Harries   Mari Davies
Mari Glain Phillips   Megan Wyn Evans   Miriam Elsi Grim   Neli Rees
Rebeca Lowe   Sara Davies

*Hyfforddwyd y dawnswyr gan: Sioned Page*
*Ymgynghorwyr dawns: Eirlys Britton a Myfanwy Rees*

*Cynlluniwyd y Ddawns gan Cynan, a'i hadolygu o dro i dro yn ddiweddarach ar gyfer amrywiol seremonïau'r Orsedd.*

**13. Cyflwyno'r Flodeuged a Chynnyrch y Meysydd** **Mabli Cain Efan John**
**Llawforynion:** **Leah Martha Rodgers a Nia Medi Morris**

*Un o ieuenctid bro'r Eisteddfod sydd yn cyflwyno'r Flodeuged a Chynnyrch y Meysydd. Wedi cyrraedd grisiau'r Maen Llog bydd y Cyflwynydd yn eu hestyn i'r Archdderwydd gan ddweud:*

'Hybarch Archdderwydd, yn enw ieuenctid ein gwlad, gofynnwn i ti dderbyn y rhodd hon o gynnyrch tir a daear Cymru.'

*Bydd yr Archdderwydd yn eu dychwelyd i'r Cyflwynydd gan ddweud:*

'Rwyf yn derbyn y rhodd hon o gynnyrch tir a daear Cymru yn symbol o'n hymroddiad ni i gyd yng ngwasanaeth yr iaith Gymraeg a diwylliant cyfoethog ein gwlad. Diolch i ti. Gweddïwn am fendith y Nef arnat ti ac ar holl ieuenctid ein cenedl.'

**14. Darllen Sgrôl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026 gan y Cofiadur,** a'i ddilyn yn syth gan Lef yr Utgyrn.

**15. Emyn** **Tôn: *Finlandia***

(*i'w ganu gan y gynulleidfa, i gyfeiliant aelodau o Fand Pres Wdig a Rhydaman*)

Dros Gymru'n gwlad, O! Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O! crea hi yn Gymru ar dy lun.

O! deued dydd pan fo awelon Duw
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
a'r crindir cras dan ras cawodydd nef
yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo Ef,
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
yn seinio fry haeddiannau'r Addfwyn Oen.

***Lewis Valentine***

**16. Cau'r Orsedd** **Yr Archdderwydd Mererid**

**'HEN WLAD FY NHADAU'**

*Telynores y Seremoni:Meinir Heulyn*

*Cyfarwyddwr y Canu: John S.*

*Arweinydd y Band: Glyn Rhys Davies*

*Cludwyr y Faner: Aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Eglwyswrw*

**ARCHDDERWYDDON CYMRU ER 1888**

(blynyddoedd eu gwasanaeth)

| | | | |
|---|---|---|---|
| CLWYDFARDD | 1888 – 1894 | BRYN | 1975 – 1978 |
| HWFA MÔN | 1895 – 1905 | GERAINT | 1978 – 1981 |
| DYFED | 1906 – 1923 | JÂMS NICOLAS | 1981 – 1984 |
| CADFAN | 1923 – 1924 | ELERYDD | 1984 – 1987 |
| ELFED | 1924 – 1928 | EMRYS DEUDRAETH | 1987 – 1990 |
| PEDROG | 1928 – 1932 | AP LLYSOR | 1990 – 1993 |
| GWILI | 1932 – 1936 | JOHN GWILYM | 1993 – 1996 |
| J. J. | 1936 – 1939 | DAFYDD ROLANT | 1996 – 1999 |
| CRWYS | 1939 – 1947 | MEIRION | 1999 – 2002 |
| WIL IFAN | 1947 – 1950 | ROBIN LLŶN | 2002 – 2005 |
| CYNAN | 1950 – 1954 | SELWYN IOLEN | 2005 – 2008 |
| DYFNALLT | 1954 – 1957 | DIC YR HENDRE | 2008 – 2009 |
| WILLIAM MORRIS | 1957 – 1960 | JIM PARC NEST | 2010 – 2013 |
| TREFIN | 1960 – 1962 | CHRISTINE | 2013 – 2016 |
| CYNAN | 1963 – 1966 | GERAINT LLIFON | 2016 – 2019 |
| GWYNDAF | 1966 – 1969 | MYRDDIN AP DAFYDD | 2019 – 2024 |
| TILSLI | 1969 – 1972 | MERERID | 2024 – |
| BRINLI | 1972 – 1975 | | |

## Yr Archdderwydd Mererid

Treuliodd Mererid ei blynyddoedd cynharaf yn byw mewn sawl lle yn Ne Cymru, o'r Coed Duon i Flaendulais, o Dredegar i Arberth ac Aberdaugleddau, cyn i'r teulu ymgartrefu yng Nghaerdydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Bryntaf, unig ysgol Gymraeg y ddinas ar y pryd, ac oddi yno aeth i Ysgol Gyfun Llanhari. Prifysgol Aberystwyth a Choleg y Brifysgol, Llundain oedd y prif arosfannau nesaf, gyda chyfnodau yn astudio yn Freiburg, Malaga a Salamanca.

Erbyn heddiw, mae wedi treulio mwy na hanner ei hoes yn Llangynnwr, Caerfyrddin, a'r gwreiddiau yn Sir Benfro yn dal i'w thynnu ymhellach i'r Gorllewin ac at Bencaer a'r môr.

Ieithoedd a llenyddiaeth yw prif ddiddordebau Mererid, ac mae'n falch o gael bod wedi dychwelyd i Aberystwyth, fel Athro'r Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

Dysgodd y cynganeddion o dan arweiniad Tudur Dylan Jones ym Mhontarsais, Sir Gâr, ac mae ymwneud â chrefft a chelfyddyd Cerdd Dafod wedi dod â chymdeithas a phrofiadau newydd a chyfoethog iddi. Enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 2001, y Goron yn 2003 a'r Fedal Ryddiaith yn 2008.

Mae wrth ei bodd yn cydweithio ag artistiaid o bob math i blethu geiriau â chelfyddyd weledol, dawns, cerddoriaeth a ffilm, ac mae'n arbennig o falch o gael gwneud hynny pan fo'r ymdrech yn cyd-fynd a'i rôl fel Ysgrifennydd Academi Heddwch Cymru.